y ganolfan cynllunio iaith
welsh centre for language planning

Edrych tua'r Gorwel: Trafodion

Gwesty'r Park Plaza, Caerdydd, 14 Rhagfyr 2010

Drannoeth i gyhoeddi'r ddogfen ymgynghori, 'Iaith Fyw: Iaith Byw', cynhaliwyd Cynhadledd i drafod ac ymateb i'r Strategaeth.

Gweler y trafodion isod.

Cyflwyniad i'r Strategaeth:

Meirion Prys Jones, Prif Weithredwr, Bwrdd yr Iaith Gymraeg

Anerchiadau'r Siaradwyr

- **Y Gymraeg yn y Teulu**: Elaine Davies, IAITH
- **Y Gymraeg yn y Gymuned**: Sel Williams, Prifysgol Bangor
- **O Ddysgu i Ddefnyddio**: Heini Gruffydd, Cyngor Iaith Hafan
- **Y Gymraeg yn y Gweithle**: Meic Raymant, Heddlu Gogledd Cymru
- **Iaith, Economi a Mentergarwch**: Alun Jones, Menter a Busnes

Alun Ffred Jones AC

Wrth gyflwyno'r Strategaeth, dywedodd y Gweinidog Treftadaeth bod y Strategaeth yr un mor bwysig â'r Mesur Iaith, os nad yn bwysicach, gan nad yw deddfwriaeth yn ddigon i ddiogelu iaith ar ei ben hun.

Nododd fod yr ymrwymiad i brif-ffrydio'r Gymraeg ym mhob maes polisi yn parhau yn unol â gweledigaeth cytundeb Cymru'n Un.

Ategodd bod y Strategaeth newydd yn adeiladu ar Iaith Pawb, yn anelu at gynyddu'r cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg ac yn codi ymwybyddiaeth o werth y Gymraeg a'n treftadaeth.

Soniodd am rai o amcanion y Strategaeth[1]:

- creu 'Ardaloedd Hybu'r Gymraeg' lle mae'r iaith yn brif iaith neu wedi bod yn brif iaith, trwy i gyrff allweddol weithio mewn partneriaeth ar draws yr ardal;
- ystyried datblygu 'Canolfannau Adnoddau Iaith Rhanbarthol' trwy dynnu sefydliadau sy'n hyrwyddo'r Gymraeg at ei gilydd;
- cydnabod shifft demograffeg trwy ddatblygu prosiect 'Trefi a Dinasoedd Dwyieithog';
- trosglwyddo iaith – adeiladu ar waith Twf a chynyddu'r gefnogaeth i'r grŵp oedran 0 – 5 a'u rhieni trwy 'Cynllun Cyflawni'r Gymraeg';
- cydnabod oedran 9-13 oed fel blaenoriaeth, sef cyfnod pan mae pobl ifanc yn gwneud penderfyniad ynglŷn â ble a phryd maen nhw'n defnyddio'r Gymraeg;
- datblygu'r Gymraeg fel sgil yn y gweithle, ehangu'r meysydd gwaith lle mae'r Gymraeg yn weithredol ac annog siaradwyr Cymraeg i gymryd mantais o'r cyfleoedd;
- sefydlu Gweithgor Rhanddeiliaid i greu fframwaith a chyfleoedd i ddysgu'r Gymraeg yn y gweithle a chael pobl i weld y Gymraeg fel sgil ar gyfer gwaith. Bydd y Llywodraeth yn arwain yn y maes ac yn dangos esiampl trwy roi cynlluniau gweithredu'r Gymraeg yn y Gweithle ar waith yn ei holl swyddfeydd erbyn 2016.

Clôdd y Gweinidog ei anerchiad drwy wahodd pawb i ymateb i'r Strategaeth.

Cofnodion y grwpiau trafod

Gofynnwyd i bob grŵp nodi tair neges i'w hadrodd nôl i'r gynhadledd fel cam cyntaf yr ymarferiad ymgynghori ar y ddogfen strategol.

O Ddysgu i Ddefnyddio

1. Roedd y grŵp o'r farn bod angen i strategaethau Llywodraeth y Cynulliad (e.e. Iaith, Tai, yr Economi) blethu'u gweledigaeth yn well a chroesgyfeirio bwriadau a blaengareddau'n fwy penodol. Bod angen, hefyd, mwy o gydweithio rhwng adrannau'r Llywodraeth ynghyd â chynlluniau prif-ffrydio penodol yng nghyswllt y Strategaeth Iaith.

2. Nodwyd nad oedd targedau penodol yn y Strategaeth newydd a bod angen ystyried gosod targedau ar sail deilliannau.

3. Nodwyd bod yna ddiffyg sylw i addysg nad sy'n statudol. Hynny yw, bod yna fwlch rhwng yr hyn a nodir yng nghyswllt addysg uwchradd a'r sector addysg bellach o ran blaenoriaethau a thargedau. Awgrymwyd bod angen creu cronfa ddata rhwng ysgolion, colegau, gweithleoedd ayb. er mwyn sicrhau dilyniant mewn sgiliau iaith.

[1] Ceir 'Crynodeb o'r Meysydd Allweddol' ar dudalen 2 a 3 'Iaith Fyw: Iaith Byw'.

Y Gymraeg yn y Gymuned

1. Ategwyd y pwynt a wnaed gan nifer o siaradwyr ynglŷn â phwysigrwydd plethu gwaith datblygu cymunedol â gwaith cynllunio ieithyddol, gan sicrhau bod y ddau agenda yn gwbl greiddiol i fudiadau fel y Mentrau Iaith a Chymunedau yn Gyntaf. Anogwyd sefydlu ymagwedd mwy holistaidd at Ddatblygu Cymunedol a'r Gymraeg drwy'r trwch.

2. Trafodwyd yr arfer sydd gan amryw o awdurdodau lleol o ddisgwyl i ddarpariaeth gwaith ieuenctid Cymraeg / dwyieithog gael ei gyflawni gan gyrff gwirfoddol a thrydydd sector – fel y Mentrau Iaith a'r Urdd – yn hytrach na bod yr awdurdodau lleol yn ceisio cyflawni'r gwaith eu hunain, yn ogystal.

3. Nodwyd yr angen i bwysleisio manteision economaidd y Gymraeg a mentergarwch, gan gydnabod bod y trydydd sector yn ehangach na mudiadau gwirfoddol traddodiadol yn unig, ond hefyd yn cynnwys mentrau masnachol cymdeithasol.

Y Gymraeg yn y Gweithle

1. Nodwyd yr angen am ddatblygu Strategaeth Gyfathrebu o fewn Llywodraeth y Cynulliad a'r angen ar i'r Llywodraeth arwain y ffordd a dangos esiampl o ran gweithleoedd dwyieithog. Yn ogystal, nodwyd yr angen am arweiniad gan uwch swyddogion mewn cyrff cyhoeddus er mwyn sicrhau bod y Gymraeg yn cael ei thrin yn gyfartal o fewn gweithleoedd.

2. Nodwyd bod angen mireinio cyrsiau Cymraeg yn y gweithle i fod yn llawer mwy pwrpasol ac y dylai'r cyrsiau rheiny arwain at gymhwyster er mwyn cyfiawnhau'r buddsoddiad a chodi eu statws. Ar hyn o bryd mae llawer o bobl yn dysgu Cymraeg yn y gwaith ond nad sy'n ei defnyddio yn y gweithle. Teimlai'r grŵp y byddai gweld a chlywed y Gymraeg drwy sefydliadau yn ysgogi eraill i'w defnyddio.

3. Awgrymwyd y dylid creu Fframwaith Cenedlaethol er mwyn nodi lefel cyrhaeddiad staff o ran sgiliau yn y Gymraeg, tebyg i ALTE. Yna, gellid disgrifio pob swydd yn swyddi 'Cymraeg hanfodol' gan addasu lefel y sgiliau Cymraeg sy'n dderbyniol ar gyfer y swydd honno.

Y Gymraeg yn y Teulu

1. Cwestiynwyd y rhesymeg dros osod ffocws ar y grŵp oed 0 - 5 yn y Cynllun Cyflawni'r Gymraeg a amlinellir yn y Strategaeth. Er bod yna groeso i'r syniad o ddwyn cynrychiolwyr ynghyd i gynllunio ar draws y sbectrwm o ddarparwyr, roedd yna deimlad nad yw'r ystod oed 0 - 5 yn adlewyrchu'r pwyslais cywir, gydag oed cyn-ysgol yn 3 oed a chwricwlwm y Cyfnod Sylfaen, er enghraifft, yn ymestyn hyd at 7 oed. Felly, awgrymwyd newid hyn i 0 - 7 oed. Yna, yn dilyn hynny, awgrymwyd y dylid ystyried adlewyrchu'r ystod oed priodol, hynny yw 7 - 13 oed ac 14 - 19 yng ngweddill y ddogfen er mwyn sicrhau synergedd â pholisïau cenedlaethol eraill.

2. Awgrymwyd hefyd y dylid adlewyrchu yn y Strategaeth y ffaith fod y teulu yn endid cymysg a chymhleth yng Nghymru bellach ac na ddylid hoelio sylw'n unig ar 'y teulu traddodiadol.'

3. Nodwyd yr angen i gynnig cymaint o gefnogaeth ymarferol â phosib i deuluoedd o bob math a'r angen hefyd i gydgordio â'r Strategaeth Tlodi Plant er mwyn sicrhau bod y Gymraeg yn cael ei hystyried a'i chynnwys yn rhan o'r agenda ehangach ar gyfer y Blynyddoedd Cynnar yng Nghymru. Nodwyd bod y Strategaeth yn gyfle i ystyried ehangu mynediad i'r Gymraeg i blant a theuluoedd mewn ardaloedd amrywiol ac o gefndiroedd cymysg.

Iaith, Economi a Mentergarwch

1. Sylwyd ar absenoldeb y gair 'mentergarwch' o'r Strategaeth, yn ogystal ag ysbryd mentergarwch yn gyffredinol. Nodwyd nad oedd yna lawer o sylw wedi ei neilltuo i fenter ac arloesi yn y Strategaeth, er bod y rhain yn nodweddion allweddol yn yr hinsawdd economaidd gyfredol.

2. Er bod yna adran ar werth y Gymraeg ar ddiwedd y Strategaeth ac yng nghyd-destun plant a phobl ifanc, nodwyd bod lle i wella'r testun drwy gynnwys mwy o dystiolaeth ynghyd ag arweiniad ar pam y dylid defnyddio'r Gymraeg. Awgrymwyd hefyd y dylid cynnwys datblygu syniadau o ran gwerth nad sy'n werth economaidd yn unig: e.e. gwerth moesol, gwerth o ran amrywiaeth ieithyddol a diwylliannol, a gwerth o ran treftadaeth a hunaniaeth ar bob lefel.

3. Cynigwyd bod angen mwy o sylw ar sut i gefnogi, cydnabod a hwyluso mentergarwch a lledaenu arfer da.

Sylwadau clo gan Huw Onllwyn Jones

Cymerodd Huw Onllwyn Jones y cyfle i draddodi rhai sylwadau clo cryno:

- Mae sefyllfa'r Gymraeg yn parhau'n fregus, serch y gwaith da sy'n cael ei wneud.
- Mae cynnwys y Strategaeth a'r Mesur yn arwydd o Lywodraeth sydd eisiau gweld yr iaith yn ffynnu. Edrychir ymlaen at dderbyn sylwadau ar y ddogfen ymgynghorol maes o law.
- Mae'r Strategaeth yn cynnig ffocws ar gynyddu defnydd a chyfleoedd.
- Mae polisïau Llywodraeth o ran Cymru'n Un yn cael eu hadlewyrchu yn y Mesur Iaith newydd.
- Mae rôl y Comisiynydd yn cynnig 'toolkit' cynhwysfawr o ran gosod safonau a'r gallu i orfodi cyrff i gydymffurfio, rhoi cyngor a chreu dogfennau arfer da.
- Bydd rôl y Llywodraeth yn bwysig er mwyn codi proffil y Gymraeg a phrif-ffrydio buddiannau'r Gymraeg o fewn gweithgareddau a pholisïau.
- Bydd Cyngor Partneriaeth y Gymraeg yn cael ei sefydlu i gynghori Gweinidogion y Llywodraeth ar y Strategaeth a sut i fynd ati i lunio cynllun gweithredu. Gall y Cyngor Partneriaeth gynnwys cyrff sy'n gweithio er lles y Gymraeg yn ogystal â chynrychiolwyr eraill o'r sector cyhoeddus, preifat a'r trydydd sector.
- Bydd yna ddyletswydd ar y Llywodraeth i gyhoeddi Cynllun Gweithredu blynyddol, felly bydd y Strategaeth yn aros yn ddogfen fyw.
- Mae'r Strategaeth yn cynnwys arwyddbyst i'r meysydd blaenoriaeth – nid yw'n cynnig yr atebion i gyd.